

**Cofnodion o gyfarfod Mis Rhagfyr 2019 Cyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd ar y 11/12/2019 yn Neuadd Llanddarog am 7.30pm.**

**Minutes of the December 2019 meeting of Llanddarog Community Council held on the 11/12/2019 at Llanddarog Hall at 7.30pm.**

**213/2019-20 Presennol / Present:**

Cynghorwyr / Councillors: R Newell (Cadeirydd / Chairman), M Rees, W Evans, T Evans, H Jones, S Herridge, J Williams O.B.E & R Jones.

Clerc / Clerk.

Cyfieithydd / Translator.

**214/2019-20 Ymddiheuriadau / Apologies.**

Cynghorwyr / Councillors: E Davies, J Youens & R Owen.

**215/2019-20 Datganiadau o fuddiannau personol / Declarations of personal interest.**

Eitem Agenda 15 (Cofnod 226/2019-20) /  
Agenda Item 15 (Minute 226/2019-20)

Cynghorwyr / Councillors:

1. R Jones - Aelod o bwyllgor Llesiant Porthyrhyd /  
*Member of Porthyrhyd Welfare Committee.*
2. W Evans - Aelod o bwyllgorau Llesiant Porthyrhyd a Neuadd Llanddarog /  
*Member of Porthyrhyd Welfare and Llanddarog Hall Committees.*

Fe wnaeth yr uchod datgan diddordebau personol mewn hyn o beth. /  
*The above Members declared personal interests in this regard.*

**216/2019-20 Cyfle i'r cyhoedd i annerch y Cyngor ar eitemau'r agenda /  
Opportunity for the public to address the Council on agenda items.**

Dim / None.

**217/2019-20 Materion Plismona a diogelwch ffyrdd. /  
Policing and Road Safety Matters.**

Penderfynwyd bod y Clerc yn adrodd y pryderon a godwyd mewn perthynas ag arwyneb y ffordd yn Llanddarog, ynghyd â chyflwr y pyst arwyddion ger ysgol Llanddarog, i'r Cyngor Sir. Penderfynwyd ymhellach ofyn i'r Cyngor Sir i anfon unrhyw ddata o unrhyw arolwg traffig sy'n cael eu cynnal ger Manor ym Mhorthyrhyd i'r Cyngor Cymuned maes o law. /

*It was resolved that the Clerk report the concerns raised with regards to the road surface in Llanddarog, together with the condition of signage posts adjacent to Llanddarog school, to the County Council. Further resolved that the County Council be asked to forward any data from any traffic survey being undertaken adjacent to Manor in Porthyrhyd to the Community Council in due course.*

**218/2019-20 Materion Cyngor Sir - Cynghorydd Sir A Davies. / County Council matters - County Councillor A Davies.**

Nid oedd y Cynghorydd Sir Davies yn bresennol a dywedwyd ei bod wedi dioddef profedigaeth deuluol. Penderfynwyd anfon llythyr o gydymdeimlad at y Cynghorydd Sir Davies.

Nodwyd bod y Cyngor Cymuned yn dal i aros am ddiweddariad ar yr arolwg / adolygiad biniau gwastraff wrth y Cyngor Sir. /

*County Councillor Davies was not in attendance and it was reported that she had suffered a family bereavement. Resolved that a letter of condolence be sent to County Councillor Davies.*

*It was noted that the Community Council is still awaiting an update on the waste bin survey / review from the County Council.*

**219/2019-20 Adroddiad y Cadeirydd. / Chairman's Report.**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r Cyfarfod. Rhoddodd ddiweddariad yn dilyn cyfarfod diweddaraf Fforwm Cyswllt Cwar Torcoed. Penderfynwyd diolch i'r Cadeirydd am ei adroddiad. /

*The Chairman welcomed everyone to the meeting. He provided an update following the latest Torcoed Quarry Liaison Forum meeting. It was resolved to thank the Chairman for his report.*

**220/2019-20 Cadarnhau ac arwyddo Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 13/11/2019. Confirmation and signing of the Minutes of the Council meeting - 13/11/2019.**

Fel sy'n arferol, roedd y Clerc wedi darparu cofnodion drafft i'r Aelodau cyn y cyfarfod gyda'r agenda / galwad i fynychu. Ar ôl cynnig gan y Cynghorydd (Cyng.) M Rees ac eilio gan Cyng. H Jones; penderynwyd cadarnhau a llofnodi'r cofnodion (dan law'r cadeirydd llywyddol). /

*As is customary, the Clerk had provided Members with draft minutes in advance of the meeting with the agenda / summons. Following a proposal by Councillor (Cllr.) M Rees and seconding by Cllr H Jones, it was resolved to confirm and sign the minutes (under the hand of the presiding chairman).*

**221/2019-20 Materion yn codi o'r cofnodion uchod. / Matters arising from the above minutes.**

(a) **Cyfeirir at gofnod 187/2019-20 (Materion Cyngor Sir – tai Cyngor Sir gwag).** Cafwyd ateb gan y Cyng Sir Ann Davies i ymholiad gwreiddiol y Cyngor Cymuned, ond roedd yr Aelodau'n dal i deimlo bod angen codi'r mater hwn eto ar lefel strategol

o fewn y Cyngor Sir. Penderfynwyd gohebu ymhellach â'r Cyngor Sir gyda'r bwriad o drafod y potensial i'r Cyngor Sir i adolygu ei bolisi ar gyfer aildefnyddio cartrefi gwag y Cyngor fel na chânt eu gadael yn wag am gyfnod hir. /

**Minute 187/2019-20 refers** (County Council matters – empty County Council homes). A reply had been received from County Cllr Ann Davies in relation to the Community Council's original enquiry, however Members still felt that this issue needed to be raised again at a strategic level within the County Council. Resolved to correspond further with the County Council with a view to discussing the potential for the County Council to review its policy for the re-use of empty Council homes so that they are not left empty for a prolonged period.

(b) **Cyfeirir at gofnod 193/2019-20** (Taliadau). Adroddwyd bod taliadau ar y rhestr hon bellach yn nodi 'Swm yn cynnwys unrhyw TAW'. Nid yw pob taliad yn cynnwys TAW ac felly mae hwn yn ymgais i roi darlun mwy cywir i'r darlennydd. Penderfynwyd nodi yr eitem yma. /

**Minute 193/2019-20 refers** (Payments). It was reported that payments in this list now state 'Sum inc of any VAT'. Not all payments contain VAT and therefore this is an attempt to provide a more accurate picture to the reader. Resolved to note this item.

(c) **Cyfeirir at gofnod 195/2019-20** (Cylch gorchwyl gweithgor manau chwarae / agored pentref Llanddarog). Roedd pob Aelod wedi cael nodiadau o gyfarfod o'r grwp gweithio a llythyr ymgynghori awgrymedig trwy e-bost. Penderfynwyd cadarnhau'r nodiadau a'r llythyr (yn ddarostyngedig ar wneud unrhyw welliannau golygyddol gofynnol i'r llythyr) ac i hefyd atodi cylch gorchwyl y grŵp i'r cofnodion (gweler tudalennau 96,97 a 98 o'r cofnodion yma). /

**Minute 195/2019-20 refers** (terms of reference of the Llanddarog village play / open space working group). All Members had been provided with notes of a meeting of the working group and a suggested consultation letter via e mail. Resolved to confirm the notes and letter (subject to making any required editorial amendments to the letter) and to also append the terms of reference of the group to the minutes (see pages 96,97 and 98 of these minutes).

(d) **Cyfeirir at gofnod 202/2019-20** (Materion yn ymwneud a coed a blanwyd gan y Cyngor cyn Mawrth 2016). Mae Lampeter Tree Services eisoes wedi edrych ar y coed sydd yn cael ei effeithio gan 'ash dieback' a byddant yn gweithredu yn ôl yr angen. Penderfynwyd nodi yr eitem yma. /

**Minute 202/2019-20 refers** (Matters relating to trees that were planted by the Council before March 2016). Lampeter Tree Services have already looked at the trees affected by ash dieback and will take action as and where required. Resolved to note this item.

**222/2019-20** Gohebiaeth. / Correspondence.

(a) Nodwyd yr eitemau isod. / *The below items were noted.*

<b>Wrth / From</b>	<b>Testun / Subject</b>
<p><b>Cyngor Sir Caerfyrddin /Carmarthenshire County Council</b></p>	<p>(a) Mae cais wedi dod i law am gau dros dro yr C2069 yng Nghwmisfael, Caerfyrddin o'r gyffordd â'r C2057 am gyfanswm pellter o 74 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin. Mae angen ei chau er mwyn i Ddŵr Cymru wneud gwaith atgyweirio, a hynny rhwng 0900 a 1800, ddydd Iau, 5 Rhagfyr 2019.</p> <p>(b) Dau ddyddiad calendr ar gyfer 2020, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 8 Ionawr 2020 - Fforwm Cyswllt Cyngorau Cymuned a Thref am 6 yr hwyr yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin (rhoddwyd yr agenda yn ogystal). Bydd trafodaeth ar Osod Cyllideb y Cyngor a'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. (Nodwyd nid yw Cyng R Jones neu Cyng J Williams ar gael – mae hwn hefyd yr un dyddiad a cyfarfod mis Ionawr y Cyngor).</li> <li>• 18 Mawrth 2020 – Cynhadledd Cyngorau Cymuned a Thref Sir Gâr ym Mharc y Scarlets, Llanelli (drwy'r dydd) /</li> </ul> <p><i>(a) A request has been received for the temporary closure of the C2069 Cwmisfael, Carmarthen from its junction with the C2057 for a total distance of 74 metres in a north-westerly direction. The closure is necessary for Welsh Water to carry out repair works from 0900 hours to 1800 hours Thursday 5th December, 2019.</i></p> <p><i>(b) Two diary markers for 2020 thus:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>8 January 2020 – Community &amp; Town Council Liaison Forum at 6pm in County Hall, Carmarthen (the agenda was also provided). There will be a discussion on Setting the Council Budget and the Rights of Way Improvement Plan. (It was noted that Cllr R Jones and Cllr J Williams are unavailable and this is also the same date as the January monthly meeting of the Council).</i></li> <li>• <i>18 March 2020 – Carmarthenshire Community &amp; Town Council Conference in Parc y Scarlets, Llanelli (all day).</i></li> </ul>
<p><b>Cwar Torcoed Quarry</b></p>	<p>Hysbyseb oriau gweithio Tachwedd a Rhagfyr 2019 a Cofnodion cyfarfod Cyswllt 18 Medi 2019 / <i>Notice hours of working November and December 2019 and Minutes for Liaison meeting 18th September 2019.</i></p>
<p><b>Cadw Prydai'n Daclus / Keep Britain Tidy</b></p>	<p>Amryw (gan gynnwys ymgyrchoedd / gwybodaeth) / <i>Various (including campaigns and information).</i></p>

<b>Cymorth Cynllunio Cymru / Planning Aid Wales</b>	Digwyddiad / hyfforddiant a cylchlythr / <i>Event / training and newsletter.</i>
<b>Power for People</b>	Cais am gynnig gan y Cyngor ynghylch ymgyrch ynni cymunedol cenedlaethol / <i>Request to support the Local Electricity Bill.</i>
<b>Llywodraeth Cymru / Welsh Government</b>	(a) Cyhoeddwyd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) ar 27 Tachwedd 2019. Rhoddwyd dyddiadau am gweminarau (sesiynau gwybodaeth ar y we) ar MALIC 2019 yn ogystal (b) Cais am wybodaeth – Rhandiroedd- erbyn 13/12/19 (c) £8.32 yw'r swm priodol ar gyfer 2020-21 at ddibenion adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972) ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru. / <i>(a) The Welsh Index of Multiple Deprivation (WIMD) 2019 was published on 27 November 2019. Dates for webinars (web-based information sessions) were also provided (b) Request for Information – Allotments – by 13/12/19 (c) the appropriate sum for the purposes of section 137(4) (a) of the Local Government Act 1972 (the 1972 Act) for Community and Town Councils in Wales for 2020-21 is £8.32.</i>
<b>Un Llais Cymru / One Voice Wales</b>	(a) Bwletin newyddion Tachwedd 2019 (b) Hyfforddiant (c) Cofnodion Pwyllgor Cyngorau mwy o faint. / <i>(a) News bulletin – November 2019 (b) Training (c) Minutes of larger Councils Committee.</i>
<b>Chwarae Cymru / Play Wales</b>	(a) Ymchwil newydd - yr hyn sydd gan blant i'w ddweud am chwarae yng Nghymru (b) bwletin newyddion / <i>(a) New research - what children say about play in Wales (b) newsletter bulletin</i>
<b>Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner</b>	(a) Cyhoeddi canllawiau data categori arbennig newydd GDPR (b) bwletin newyddion / <i>(a) New GDPR special category data guidance published (b) newsletter bulletin.</i>
<b>Trafnidiaeth Cymru / Transport for Wales</b>	Gwybodaeth ar adnewyddu cerdyn bws / <i>Information on bus pass renewal.</i>
<b>Eglwys y Bedyddwyr Saesneg ar Heol Awst, Caerfyrddin / English Baptist Church in Lammas Street, Carmarthen</b>	'Nadolig y Stori' – 9-14 Rhagfyr 2019 / <i>'Christmas the Story' - 9th – 14th December 2019.</i>
<b>Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru / Mid and West Wales Fire and Rescue Service</b>	(a) Cynllun Corfforaethol Drafft 2020-25 (b) Ar Ddydd Llun 25 Tachwedd, rhwng 18:00 a 18:30, bydd y Dirprwy Brif Swyddog Tân Roger Thomas yn cynnal gweminar a thrafodaeth gyffredinol fyw ynghylch Cynllun Corfforaethol Drafft 2020-2025. / <i>(a) Corporate Plan 2020 - 2025 (b) Deputy Chief Fire Officer Roger Thomas will be hosting a live webinar and general discussion regarding the Draft Corporate Plan 2020-2025 on Monday 25<sup>th</sup> November at 18:00pm – 18:30pm.</i>
<b>Eluned Morgan AC / AM</b>	Cylchlythr / <i>Newsletter.</i>

<b>Ffrindiau Eglwys San Pedr Caerfyddin / Friends of St Peters Church Carmarthen</b>	Hysbyseb digwyddiad. / <i>Notice of event.</i>
<b>Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys / Office of the Police and Crime Commissioner Dyfed Powys</b>	Ymgynghoriad Ynghylch Praesept yr Heddlu 2020/21 / <i>Police Precept Consultation 2021/21.</i>
<b>Cymdeithas Cludiant Cymunedol / Community Transport Association</b>	Cylchlythyr - Cysylltu Cymunedau yng Nghymru / <i>Newsletter - Connecting Communities in Wales.</i>

(b) Gweithredoedd yn sgil ohebiaeth / *Actions resulting from correspondence:*

(1) Penderfynwyd rhestri'r eitemau canlynol ar agendau cyfarfodydd y Cyngor i ddod: /

*It was resolved to list the following items on the agendas of forthcoming Council meetings:*

(a) **Sied Dynion Cwm Gwendraeth** – Roedd yr Aelodau wedi cael yr e-bost cyn y cyfarfod. Roedd trafodaeth ynghylch a oedd y Cyngor yn cael ei ofyn am rodd ariannol a/neu llythyr o gefnogaeth. Dylid nodi byddai'r Cyng J Williams wedi datgan diddordeb pe bai'r mater hwn yn cael ei drafod. /

**Cwm Gwendraeth Men's Shed** – *Members had been provided with the e mail in advance of the meeting. There was discussion as to whether the Council was being asked for a financial donation and/or a letter of support. It should be noted that Cllr J Williams would have declared an interest if this matter was being discussed.*

(b) **Pwyllgor Neuadd Llanddarog** – Mae'r Pwyllgor am gael llythyr o gefnogaeth i'w ddarparu fel rhan o unrhyw gais am gyllid ar gyfer neuadd newydd. Deallir hefyd eu bod yn chwilio am syniadau ar ba gyfleusterau y dylai unrhyw neuadd newydd yn Llanddarog ei gynnwys. /

**Llanddarog Hall Committee** – *The Committee is seeking a letter of support to provide as part of any funding application for a new hall. It is understood that they are also looking for ideas on what facilities in any new hall in Llanddarog should contain.*

**223/2019-20 Cynllunio. / Planning.**

Penderfynwyd nodi y ceisiadau isod. /

*It was resolved to note the below applications.*

**(i) W/39870**

Rhyddhau Amod(au) Cynllunio 4 A 5 (GWAREDU DŴR WYNEB A MANYLION AM Y DEFNYDDIAU FYDD YN CAEL EU DEFNYDDIO AR ARWYNEBAU ALLANOL YR ADEILAD) O W/39080 (CODI ADEILAD FFRÂM BORTAL DROS GYFLEUSTER AMAETH AC AMAETHYDDOL)- BRYNLLUAN, PORTHYRHYD, SA32 8PR. /

*Discharge of Planning Condition(s) - DISCHARGE OF CONDITIONS 4 AND 5 (SURFACE WATER DISPOSAL AND DETAILS OF MATERIALS TO BE USED IN THE EXTERNAL SURFACES OF THE BUILDING) OF W/39080 (CONSTRUCTION OF PORTAL FRAME BUILDING TO COVER EXISTING MANEGE FOR MIXED EQUINE AND AGRICULTURAL PURPOSES) - BRYNLLUAN, PORTHYRHYD, CARMARTHEN, SA32 8PR.*

**(ii) W/39834**

Amlinellol - LLEOLI ANNEDD NEWYDD AC ADEILAD GYDA GOFOD ATEGOL - TIR WRTH GEFN THE OLD COACH HOUSE, LLANARTHNE, CAERFYRDDIN, SIR GAERFYRDDIN, SA32 8AN. /

*Outline - SITING OF A NEW DWELLING AND OUTBUILDING WITH ANCILLARY SPACES - LAND TO THE REAR OF THE OLD COACH HOUSE, LLANARTHNE, CARMARTHEN, CARMARTHENSHIRE, SA32 8AN.*

**224/2019-20 Taliadau. / Payments.**

Cadarnhawyd yr isod. / The below were ratified.

Rhif Siec. / Cheque Number.	Dyddiad. /Date.	Cyflenwr a manylion./ Suppliers and details.	Swm £ yn cynnwys unrhyw TAW. / Sum £ inc of any VAT.
1499	15/11/19	WCVA – Asiant Cyflogres Tachwedd 2019. – <i>Payroll agent November 2019.</i>	20.10
1500	15/11/19	Ad-dalu y Clerc am 2 dorch pabi (a137) / <i>Clerk reimbursement for 2 poppy wreaths (s137)</i>	60
1501	15/11/19	Cyflog a lwfans Clerc ar ol treth - cyfnod 8. <i>Clerk salary and allowances after tax - period 8.</i>	376.06
1502	-	Siec wedi Scrapio / <i>Scrapped Cheque</i>	-
1503	11/12/19	Menter Gwasanaethau – cyfieithu. / <i>translation.</i>	79.20
1504	-	Siec wedi Scrapio / <i>Scrapped Cheque</i>	-
1505	11/12/19	Ad-dalu y Clerc am 3 fflag newydd (Rhoddod y Clerc y fflagiau i Cyng j Williams). / <i>Clerk reimbursement for 3 new flags (Clerk handed the flags to Cllr J Williams).</i>	76.25

**225/2019-20 Nodi Derbyniadau./ Noting of Receipts.**

Dim byd wedi derbyn. /

*Nothing received.*

**226/2019-20 Cadarnhau'r confensiwn blynyddol o gynnig cefnogaeth ariannol i fudiadau i osod addurniadau tymhorol. /**

Confirmation the annual convention of offering financial support to organisations for placing of seasonal decorations.

Fe wnaeth y Cyng W Evans a R Jones datgan diddordebau personol. Penderfynwyd cadarnhau'r confensiwn blynyddol o roi grant hyd at £50.00 yr un at Lesiant

Porthyrhyd, Neuadd Llanddarog a Llesiant Mynyddcerrig ar gyfer darparu addurniadau tymhorol ar sail cynhyrchu derbynneb i'r Clerc. /

*Councillors W Evans and R Jones declared personal interests. Resolved to ratify the annual convention of providing a grant of up to £50.00 each to Porthyrhyd Welfare, Llanddarog Hall and Mynyddcerrig Welfare for the placing of seasonal decorations upon production of a receipt to the Clerk.*

**227/2019-20 Cymeradwyo Cynllun 'Adran 6' i gynnal a gwella bioamrywiaeth o fewn feysydd gwaith cyfredol y Cyngor a hefyd mabwysiadu polisi bioamrywiaeth. / Ratifying of a 'Section 6' Plan to maintain and enhance biodiversity within the Council's current work areas and adopting of a biodiversity policy.**

Dosbarthwyd Cynllun drafft, ynghyd â pholisi bioamrywiaeth drafft, i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Mae'r Cynllun yn cydnabod cyfrifoldebau'r Cyngor o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dyletswydd adran 6). Penderfynwyd cadarnhau'r 'Cynllun Adran 6' a mabwysiadu'r polisi bioamrywiaeth. Bydd y rhain yn cael eu hanfon ymlaen at Lywodraeth Cymru a byddant hefyd yn cael eu rhoi ar wefan y Cyngor Cymuned unwaith y cânt eu cyfieithu i'r Gymraeg. Bydd angen iddynt fod ar-lein cyn 31 Rhagfyr 2019. /

*A draft Plan, together with a draft biodiversity policy, were circulated to Members in advance of the meeting. The Plan recognises the Council's responsibilities under the Environment (Wales) Act 2016 (the section 6 duty). It was resolved to ratify the 'Section 6 Plan' and to adopt the biodiversity policy. These will be forwarded to the Welsh Government and will also be placed on the Community Council's website once they are translated into Welsh. They will need to be online before the 31 of December 2019.*

**228/2019-20 Cymeradwyo cynllun / bolisi iaith Gymraeg diwygiedig y Cyngor yn dilyn adborth oddi wrth Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg. / Ratifying of the Council's revised Welsh language scheme / policy following feedback from the Welsh Language Commissioner.**

Dosbarthwyd y polisi terfynol arfaethedig (sy'n cynnwys unrhyw sylwadau gan swyddfa'r Comisiynydd ar y drafft a gytunwyd arno gan y Cyngor eisioes) i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Penderfynwyd cadarnhau'r polisi fel a'i cyflwynwyd a hysbysu'r Comisiynydd o'r ffaith hon. Fe fydd y Comisiynydd yn cael ei ofyn am gyngor ar y camau nesaf. Mae'r polisi i'w roi ar wefan y Cyngor cyn gynted ag y derbynnir cyngor gan y Comisiynydd. /

*The proposed final policy (which contains any comments from the Commissioner's office on the Council's previously agreed draft) was circulated to Members in advance of the meeting. It was resolved to ratify the policy as presented and inform the Commissioner of this fact. The Commissioner will be asked for advice on the next steps. The policy is to be placed on the Council's website as soon as advice is received from the Commissioner.*



**229/2019-20 Ystyried ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cymru Fwy Cyfartal - Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. / Consideration of Welsh Government consultation: A More Equal Wales - Commencing the Socio-economic Duty.**

Roedd manylion yr ymgynghoriad hwn wedi'u darparu i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Penderfynwyd nodi'r ymgynghoriad hwn. /

*Details of this consultation had been provided to Members in advance of the meeting. It was resolved to note this consultation.*

**230/2019-20 Astudiaeth sy'n ymchwilio i welliannau trafndiaeth posib ar yr A48 rhwng Cross Hands a Pensarn. / Study that is investigating potential transport improvements on the A48 Cross Hands to Pensarn.**

Cyfeirir at funud 191/2019-20 (b) (1). Roedd yr Aelodau wedi cael papur ar hwn cyn y cyfarfod. Er mai Tachwedd 21 2019 oedd y dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer sylwadau, mae'r Cyngor wedi cael gwybod y gellir bwydo i fewn unrhyw sylwadau y mae'n eu gwneud yn y cyfarfod hwn i'r gwaith. Nodwyd bod Aelod wedi cymryd y cyfle i ymateb fel unigolyn yn barod er nad yw'r Cyngor wedi cytuno ar ymateb corfforaethol eto. Penderfynwyd bod y Cyngor yn ceisio cael mwy o wybodaeth am ba welliannau sy'n cael eu cynnig cyn gwneud sylwadau ar y mater hwn. /

*Reference is made to minute 191/2019-20 (b) (1). Members had been provided with a paper on this in advance of the meeting. Whilst the original deadline for comments was November 21 2019, the Council has been informed that any comments it makes at this meeting can be fed into the work. It was noted that a Member has taken the opportunity to respond as an individual albeit the Council has yet to agree a corporate response. Resolved that the Council seek out further information on what improvements are being proposed before commenting on this matter.*

**231/2019-20 Y swm y bydd y Cyngor yn rhoi at Bwyllgor Apêl ardal Llanddarog, Llanarthne, Porthyrhyd, Capel Dewi a Mynyddcerrig ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2021.**

/

The sum that the Council will be giving to the Appeal Committee for the Llanddarog, Llanarthne, Porthyrhyd, Capel Dewi and Mynyddcerrig area for the Urdd Eisteddfod 2021.

Mae'r Cyngor eisoes wedi cytuno y bydd yn darparu symiau dros y blynyddoedd ariannol 20/21 a 21/22 ond nid yw wedi cytuno faint. Penderfynwyd gofyn i swyddogion y Pwyllgor Apêl i gynghori ar y symiau mae Cyngorau eraill yn ei ddarparu a bod y mater yn cael ei restru ar agenda cyfarfod Ionawr 2020 o'r Cyngor. /

*The Council has already agreed that it will provide sums over the 20/21 and 21/22 financial years however it has not agreed how much. Resolved that the Appeal Committee officers be asked to advice on what sums other Councils are providing and that the matter be listed on the agenda of the January 2020 meeting of the Council.*

232/2019-20 Ystyried prosiect arfaethedig ar gyfer darparu arwyddion adborth cyflymder i yrwyr ym Mhorthyrhyd. /  
Consideration of proposed provision of driver feedback speed signs project in Porthyrhyd.

Mae'r Cyngor Sir wedi cysylltu â'r Cyngor Cymuned yn ddiweddar ac wedi cynnig darparu 2 arwydd ym Mhorthyrhyd cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon fel rhan o prosiect partneriaeth gyda'r gost wedi'i rhannu rhwng y 2 Gyngor. Hefyd, mae'r Cyngor Sir wedi cynnig anfonebu'r Cyngor Cymuned am ei gyfran o'r gost (£2,411 + TAW) ym mlwyddyn ariannol 20/21. Rhoddwyd manylion i'r Aelodau o ble y cynigir lleoli'r arwyddion cyn y cyfarfod.

Cyfeiriwyd at gyngor cyfreithiol a ddarparwyd drwy'r 'National Association of Local Councils' (NALC) o fewn bwletin newyddion Un Llais Cymru - Medi 2019. Rhoddwyd hwn i'r Aelodau cyn y cyfarfod yn ffurf copi called gyda'r agenda / galwad i fynychu: 'Arwyddion cyflymdra a weithredir gan gerbydau – yr ydym wedi cael ein gofyn am Gynghorau Lleol yn darparu arwyddion cyflymdra a weithredir gan gerbydau o dan rymoedd ar gyfer arafu traffig (a. 274A Deddf Priffyrdd 1980); rhybuddio am berygl (a. 72 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984) neu atal trosedd (a. 31 Deddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997). Ein barn ni yw nad oes yr un o'r grymoedd hyn yn cynnwys darparu arwyddion o'r fath. Nid yw'r diffiniad o arafu traffig yn cynnwys arwyddion cyflymdra; mae rhybuddio am berygl yn ymwneud fel arfer â rhywbeth sy'n berygl yn y fan a'r lle fel mynedfa gudd, ac mae goryrru fel arfer yn cael ei gosbi trwy hysbysiad cosb benodedig, sydd ddim yn gosb droseddol.' Ymhellach i'r uchod, roedd bwletin newyddion mis Tachwedd 2019 Un Llais Cymru wedi cael ei ddsbarthu i bob Aelod ar e-bost cyn y cyfarfod yma ac roedd hwn yn cynnwys y cyngor canlynol: 'Arwyddion cyflymdra a weithredir gan gerbydau - Yn dilyn ein harweiniad yn y diweddariad diwethaf ar ein barn nad yw tri grym penodol (a.274A Deddf Priffyrdd 1980, a. 72 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac a.31 Deddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997) yn rymoedd sy'n galluogi cynghorau lleol i ddarparu arwyddion at ddibenion arafu traffig, gofynnwyd inni am rymoedd cyffredinol. Yn ein barn ni fydd y grym cymhwysedd cyffredinol yn helpu cynghorau lleol gan ei fod yn rym sy'n galluogi awdurdod lleol i wneud unrhyw beth y mae unigolion yn gyffredinol yn ei wneud. Ni all unigolion ddarparu arwyddion cyflymdra. Yn absenoldeb grym penodol, y llwybr arferol yw ystyried a.137 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae a.137(2) yn galluogi cyngor yn benodol i gyfrannu tuag at gostau swyddogaethau awdurdod lleol arall - yn hynny o beth gellid gwneud cyfraniad i gostau awdurdod priffyrdd o ran arwyddion cyflymdra o'r fath. Mae a.137 (1) yn gaeth i gyfyngiadau a gwaharddiadau statudol presennol, megis y tri grym y cyfeiriwyd atynt uchod. Byddai a ellid ei ddefnyddio y tu allan i'r grymoedd hynny yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Mae'r un peth yn wir am rym llesiant yng Nghymru, sydd wrth gwrs yn cael ei gyfyngu gan derfynau gwario a.137. Posibilrwydd arall fyddai i awdurdod priffyrdd ddirprwyo ei swyddogaeth i gyngor lleol o dan a.101 Deddf 1972. Byddwn yn ail-adrodd mai prwpas y wybodaeth yn y diweddariadau cyfreithiol hyn yw cynnig cyngor cyffredinol.'

Cyfeiriwyd at gofnod 140/2019-20, yn nodedig o rhan penderfyniad y Cyngor ym mis Medi 2019 y dylid codi swm o £1750 o braesept / cyllideb y flwyddyn nesaf i ailgyflenwi'r balansau cyffredinol / rhydd sydd wedi'u lleihau fel rhan o gyflawni'r lloches newydd yn Llanddarog. O'r herwydd hyn, mae'n debygol fyddai dod ymlaen a gwariant prosiect cyfalaf o £2,411 + TAW i 20/21 yn debygol o arwain at ofyniad cynnydd praesept nodedig, yn enwedig wrth ystyried y blaenoriaethau cyllideb eraill a gytunwyd eisoes. Pwysleisiodd yr Aelodau fodd bynnag fod darparu buddsoddiad cyfalaf ym Mhorthyrhyd yn ystod y tymor cyfredol yn flaenoriaeth gorfforaethol i'r Cyngor Cymuned a bod y cyhoedd wedi codi pryderon am gyflymderau traffig yn y pentref.

Cynghorwyd yr Aelodau i gadarnhau'r sefyllfa gyfreithiol a sicrhau nad yw'n neilltuo ei hymrwymiaadau cyllidebol presennol, yn enwedig ailgyflenwi cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor yn 20/21. Dylid cyfeirio at gofnod 323/2018-19 mewn perthynas â'r rheoliadau ariannol a penderfyniad y Cyngor mewn hyn o beth.

Nododd yr Aelodau fod arwyddion newydd wedi'u darparu yn ardal Cyngor Cymuned Gorslas yn ddiweddar. Roedd yr Aelodau am gadarnhau os oedd Cyngor Cymuned Gorslas wedi cyfrannu unrhyw arian tuag at yr arwyddion hyn.

Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir i esbonio'r sefyllfa o ran ariannu'r arwyddion newydd yn ardal Cyngor Cymuned Gorslas. Penderfynwyd ymhellach bod y Cyngor Cymuned yn ei gwneud yn glir i'r Cyngor Sir ei fod ganddi'r meddylfryd o fwrw ymlaen â'r prosiect partneriaeth ym Mhorthyrhyd - yn amodol ar drafodaethau pellach ac ystyriaeth o faterion manwl (gan gynnwys materion cyfreithiol ac ariannol). Penderfynwyd ymhellach for yr Aelodau yn hapus gyda lleoliad arfaethedig yr arwyddion. /

*The County Council has recently contacted the Community Council and offered to provide 2 signs in Porthyrhyd before the end of this financial year as part of a partnership project with the cost shared between the 2 Councils. Also, the County Council has offered to invoice the Community Council for its share of the cost (£2,411 + VAT) in the 20/21 financial year. Members were provided with details of where the signs are proposed to be located before the meeting.*

*Reference was made to legal advice provided from the National Association of Local Councils (NALC) contained within One Voice Wales' news bulletin - September 2019. This was provided in hard copy form to Members before the meeting with the agenda / summons: 'Vehicular activated speed signs - We have been asked about local councils providing vehicular activated speed signs under powers for traffic calming (s. 274A Highways Act 1980); warning of a danger (s. 72 Road Traffic Regulation Act 1984) or preventing crime (s. 31 Local Government and Rating Act 1997). It is our view that none of these powers covers the provision of such signs. The definition of traffic calming does not include speed signs; warning of a danger is about a specific immediate danger such as a concealed entry and speeding is normally dealt with by a fixed penalty notice which is not a criminal sanction'. Further to the above, the November 2019 One Voice Wales news bulletin had been circulated to all Members before this meeting on e mail and this contained the following advice: 'Vehicular activated speed signs - Further to our guidance in the last update on our view that three specific powers (s.274A Highways Act 1980, s. 72 Road Traffic Regulation Act 1984 and s.31 Local Government and Rating Act 1997) are not powers that enable the provision of signs for traffic calming purposes by local councils, we have been asked about general powers. In our view the general power of competence will not assist local councils as it is a power that enables a local authority to do anything individuals generally may do. Individuals cannot provide speed signs. In the absence of a specific power the normal route is to consider s.137 of the Local Government Act 1972. S.137(2) specifically allows a council to contribute towards the costs of another local authority's functions - as such a contribution could be made to a highway authority's costs in respect of such speed signs. S.137 (1) is subject to existing statutory limitations and prohibitions, such as the three powers referred to above. Whether it could be used outside of those powers would depend on the specific circumstances. The same goes for the power of wellbeing in Wales, which of course is subject to the s.137 spending limits. Another possibility would be for a highway authority to delegate its function to a local Council under s.101 of the 1972 Act. I would reiterate that the purpose of the information in these legal updates is to provide general advice'*

Reference was made to minute 140/2019-20, notably in terms of the Council's resolution in September 2019 that a sum of £1750 be raised from next year's precept / budget to replenish the general / free balances which have been depleted as part of delivering the new shelter in Llanddarog. As such, bringing forward a capital project spend of £2,411 + VAT to 20/21 is likely to result in a notable precept increase requirement, particularly when other budget priorities have already been agreed. Members did stress however that the provision of capital investment in Porthyrhyd during the current term was a corporate priority for the Community Council and that concerns with regards speed of traffic had been raised by the public.

Members were advised to confirm the legal position and ensure that the Council does not set aside its existing budgetary commitments, particularly the replenishing of its general reserves in 20/21. Reference should be made to minute 323/2018-19 in relation to the financial regulations and the Council's resolution in this regard.

Members noted that new signs had recently been provided in the Gorslas Community Council area. Members wished to confirm if Gorslas Community Council had contributed any funding towards these signs.

It was resolved that the County Council be asked to explain the position with the funding of the new signs in the Gorslas Community Council area. Further resolved that the Community Council make it clear to the County Council that it is minded to progress the partnership project in Porthyrhyd – subject to further discussions and consideration of matters of detail (including legal and financial issues). Further resolved that Members were happy with the proposed location of the signs.

**233/2019-20 Fforwm er mwyn i Aelodau i godi adroddiadau / cwestiynau drwy'r Cadeirydd. /**

**Forum in order for Members to raise reports / questions through the Chairman.**

(a) Codwyd pryderon ynghylch goleuadau stryd (gan gynnwys mater sy'n bodoli eisoes ym Mhorthyrhyd) ynghyd â gwelededd priffyrdd yn yr ardal. Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Cyngor Sir am y materion hyn, gyda'r Aelodau'n rhoi mwy o fanylion am union leoliad y materion hyn yn ôl y galw. /

*There were concerns raised with regards street lighting (including an existing issue in Porthyrhyd) along with highway visibility in the area. Resolved to report these issues to the County Council, with Members providing more detail on the exact location of these issues as and where required.*

(b) Atgoffwyd yr Aelodau am 'Ŵyl yr Angylion' yn Eglwys Sant Twrog, Llanddarog, Rhagfyr 12-15, 2019. Penderfynwyd nodi'r eitem yma. /

*Members were reminded about the 'Angel Festival' in St. Twrog's Church, Llanddarog, December 12-15, 2019. Resolved to note this item.*

**234/2019-20 'In-camera' – 8.38pm.**

Fe wnaeth y rhai nad oeddynt yn Aelodau'r Cyngor Cymuned, neu'r Clerc, adael y cyfarfod - heb ddychwelyd. Mae'r gwahardd oherwydd materion personél /staff yn cael ei thrafod. /

*Those who were not Community Council Members, or the Clerk, departed the meeting - not to return. The exclusion is due to personnel / staffing matters being discussed.*

**235/2019-20 Materion Cyflog a Iwfansau Cyfnod 9 2019-20 / Salary and allowances matters Period 9 2019-20**

Fe wnaeth bob Aelod derbyn copi o'r adroddiad o flaen llaw. Fe benderfynwyd derbyn yr adroddiad a chadarnhau talu'r symiau fel y cyflwynwyd. /

*Each Member had been provided with a written report in advance of the meeting. It was resolved to accept the report and ratify the payment of the sums as presented.*

**236/2019-20 Adolygiad parhaol o sefyllfa ymrestru awtomatig / Continued review of auto enrolment position**

Fe wnaeth bob Aelod dderbyn adroddiad ysgrifenedig o flaen llaw'r cyfarfod. Fe wnaeth yr adroddiad amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran cymhwysedd y Clerc ar gyfer ymrestru awtomatig. Nid yw'r Clerc wedi gofyn i ymuno gyda chynllun. Penderfynwyd nodi'r adolygiad fel y ganlyn. /

*Each Member had been provided with a written report in advance of the meeting. The report outlined the present position in relation to the Clerk's eligibility for auto enrolment. The Clerk has not asked to join a scheme. Resolved to note the review accordingly.*

**237/2019-20 - Ystyried ceisiadau swydd a dderbyniwyd am Clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC) nesaf i'r Cyngor a cytuno ar y camau nesaf yn y broses recriwtio. / Consideration of job applications received for the next Clerk / Responsible Financial Officer (RFO) to the Council and agreement on the next steps in recruitment process.**

Roedd pob un o'r deg cais a dderbyniwyd am y swydd Clerc / SAC i'r Cyngor wedi'u darparu i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Penderfynwyd llunio rhestr fer o 2 ymgeisydd ar gyfer cyfweliad. Bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor yn Neuadd Porthyrhyd ar 18 Rhagfyr 2019. Cytunwyd ar fformat a gwestiynau'r cyfweliad. Gofynnir i'r 2 ymgeisydd ar y rhestr fer ddod â manylion 1 dyfarnwr (reference) i'r Cyngor gysylltu â nhw pe bai'r Cyngor yn penderfynu cynnig y swydd i un ohonyn nhw. Y bwriad fydd i'r Clerc / SAC newydd ddechrau ar Ionawr 1 2020 ar bwynt 7 o raddfa LC1 7-12 – cyflogir am 9 awr yr wythnos – (pro rata 37 awr yr wythnos). Bydd y lwfansau'r un fath ag y telir y Clerc presennol / ymadawol. Fe fydd y Cyngor yn ystyried drefniadau trosglwyddo yn ffurfiol cyn y cyfweliadau ar 18 Rhagfyr 2019. /

All ten applications received for the position of Clerk/RFO to the Council had been provided to Members in advance of the meeting. It was resolved to shortlist 2 candidates for interview. Interviews will take place at an extraordinary meeting of the Council in Porthyrhyd Hall on the 18 of December 2019. The interview questions and format were agreed. The 2 shortlisted candidates will be asked to bring with them details of 1 referee (reference) for the Council to contact should the Council resolve to offer the position to one of them. It is proposed for the new Clerk/RFO to start on January 1 2020 on point 7 of LC1 scale 7-12 – employed 9 hours a week (pro rata 37 hours a week). The allowances will be the same as the current / outgoing Clerk is paid. The Council will formally consider handover arrangements before the interviews on the 18 of December 2019.

238/2019-20 Daeth y cyfarfod i ben am 9.00pm /  
The meeting finished at 9.00pm

---

Atodiad i'r cofnodion – gweler cofnod 221(c)/2019-20

Appendix to the minutes – see minute 221(c)/2019-20

Ystyried darpariaeth cyfleusterau chwarae / man agored ym mhentref Llanddarog.  
Cylch Gorchwyl y Grwp Gweithio

Consideration of the provision of play / open space facilities in the village of Llanddarog.  
Terms of Reference of the Working Group.

### 1. Penderfyniadau'r Cyngor

1.1 Mae Cofnod 166/2019-20 (Hydref 2019) yn amlinellu trafodaethau'r Cyngor ar y mater hwn. Penderfynwyd sefydlu Grŵp gweithio yn cynnwys y Cyng M Rees, J Youens, H Jones a T Evans i edrych ar y mater hwn yn fanwl cyn adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn. Fodd bynnag, cyn i'r gweithgor gwrdd, yn gyntaf rhaid i'r Cyngor gytuno i'w gylch gorchwyl.

1.2 Mae Cofnod 114/2019-20 (Awst 2019) hefyd yn berthnasol. O dan funud 4(b) dywedir: 'penderfynwyd ymhellach y dylid fod yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid perthnasol fel rhan o'r ystyriaethau sydd i ddod gan y Cyngor ynghylch ddarpariaeth cyfleusterau chwarae / man agored ym mhentref Llanddarog.'

1.3 Nodir yr Aelodau hefyd caniatâd cynllunio amlinellol W/26987 ar gyfer yr 16 cartref newydd yn y pentref yn ogystal â'r adran 106. Y swm i'w dalu i'r Cyngor Sir yw £2,463 y cartref ynghyd â ffi weinyddol o £10,000. Bydd hwn yn swm cymudedig tuag at fan agored / darpariaethau chwarae o fewn cyffiniau'r tir coch.

### 1. Council resolutions

1.1 Minute 166/2019-20 (October 2019) outlines the Council's discussions on this matter. It was resolved that that a working group consisting of Cllrs M Rees, J Youens, H Jones and T Evans be established to look at this matter in detail before reporting back to the full Council. However, before the working group meets, the Council must firstly agree to its terms of reference.

1.2 Minute 114/2019-20 (August 2019) is also of relevance. Under minute 4(b) it is stated that 'further resolved that a proactive approach be undertaken to engaging with residents and relevant stakeholders as part of the upcoming consideration by the Council regarding the provision of play / open space facilities in Llanddarog village'.

1.3 Members will also note the outline planning permission W/26987 for the 16 new homes in the village as well as the section 106. The sum to be paid to the County Council is £2,463 per home plus a £10,000 admin fee. This will be a commuted sum towards open space / play provisions within the vicinity of the red land.

## **2. Aelodaeth o'r Grŵp Gweithio**

2.1 Fel yr amlinellwyd yn 1.1 uchod - yr Aelodaeth fydd y Cyngorwyr M Rees, J Youens, H Jones a T Evans.

## **2. Membership of the Working Group**

2.1 As outlined in 1.1 above – the Membership will be Cllrs M Rees, J Youens, H Jones and T Evans.

## **3. Amcanion**

3.1 Amcanion y grŵp yw darparu argymhellion gwybodus i'r Cyngor llawn ar y canlynol:

- a) Natur, lleoliad a hygyrchedd unrhyw gyfleusterau chwarae / man agored yn y pentref ym mhentref Llanddarog ar hyn o bryd.
- b) Lleoliadau posib ar gyfer unrhyw ddarpariaeth newydd.
- c) Trefniadau cyflenwi / rheoli posib ar gyfer unrhyw ddarpariaeth newydd.

## **3. Objectives**

3.1 The objectives of the group are to provide informed recommendations to the full Council on the following:

- a) The nature, location and accessibility of any play / open space facilities in the village in Llanddarog village at the present time.
- b) Potential locations for any new provision.
- c) Potential delivery/ management arrangements for any new provision.

## **4. Cynllun dirprwyo**

4.1 Er mwyn cyflawni ei amcanion, gall y grŵp:

- a) Cyfarfod fel gweithgor yn ôl yr angen.
- b) Ymgynghori â grwpiau, unigolion a sefydliadau partnerol, gan gynnwys ymgynnull cyfarfodydd cyhoeddus.
- c) Ni all y grŵp ymrwymo i unrhyw ymrwymadau ariannol a / neu bolisi ar ran y Cyngor. Yn hytrach, ei gylch gwaith yw casglu gwybodaeth i ddod i rai argymhellion gwybodus ar gyfer y Cyngor.

## **4. Scheme of delegation**

4.1 In order to achieve its objectives, the group can:

- a) Meet as a working group as and when required.
- b) Consult with groups, individuals and partner organisations, including convening of public meetings.
- c) The group cannot enter into any financial and/or policy commitments on behalf of the Council. Rather, its remit is to gather information to arrive at some informed recommendations for the Council.

## **5. Adrodd ac Amserlenni**

5.1 Bydd y grŵp yn darparu adroddiadau ysgrifenedig trwy'r Clerc trwy e-bost yn gyfnodol.

5.2 Pan fydd y grŵp wedi dod i rai argymhellion pendant, bydd yn gofyn i'r Clerc restru'r mater ar agenda'r Cyngor llawn. Ar yr adeg hon, bydd y Cyngor llawn yn derbyn adroddiad ysgrifenedig wrth y grŵp gweithio gyda'i argymhellion.

5.3 Rhagwelir y bydd y grŵp mewn sefyllfa i ddarparu ei adroddiad i'r Cyngor llawn ym mis Chwefror 2020.

### **5. Reporting and Timescales**

5.1 The group will provide written reports through the Clerk via e-mail on a periodic basis.

5.2 Where the group has arrived at some concrete recommendations, it will ask the Clerk to list the matter of an agenda of full Council. At this time, full Council will receive a written report from the working group with its recommendations.

5.3 It is anticipated that the group will be in a position to provide its report to full Council in February 2020.

### **6. Diwygio neu / neu ddiddymu'r Cylch Gorchwyl hwn**

6.1 Dim ond trwy benderfyniad yn y Cyngor llawn y gellir gwneud hyn.

### **6. Amendment or / or dissolution of these Terms of Reference**

6.1 This can only be done by a resolution at full Council.

**CYMERADWYFYD Y CYLCH GORCHWYL YMA GAN Y CYNGOR AR 13 TACHWEDD 2019  
(Nodir - mân cywiriad golygyddol i frawddeg olaf Paragraff 1.3 wedi ei dderbyn gan y Cyngor  
ar Ionawr 8 2020).**

**THESE TERMS OF REFERENCE WERE APPROVED BY COUNCIL ON 13 NOVEMBER 2019  
(Note - minor editorial correction to final sentence of Paragraph 1.3 accepted by the Council on  
January 8 2020).**

\_\_\_\_\_  
CADEIRYDD / CHAIRMAN

\_\_\_\_\_  
DYDDIAD / DATE